IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# LlC25-91

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | 22 *Rhagfyr 2025* |
| *Yn dod i rym* | 23 *Rhagfyr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 60, 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 60(4) o'r Ddeddf honno â'r cyrff yr ymddangosai iddynt hwy eu bod yn cynrychioli'r personau y mae'r Cyfarwyddydau hyn yn ymwneud â'u tâl ac ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, dod i rym a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2025.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 23 Rhagfyr 2025 ond maent yn cael effaith o 1 Ebrill 2025 ymlaen(**2**).

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Mae adran 60(3)(e) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn caniatáu effaith ôl-weithredol y Cyfarwyddydau a roddir o dan adran 60 o'r Ddeddf honno ar yr amod nad yw darpariaeth o'r fath, gan roi sylw i'r

(3) Yn y Cyfarwyddydau hyn, ystyr "y Prif Gyfarwyddydau" yw Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ynghylch y Datganiad ar Hawlogaethau Ariannol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2009(**1**).

**Diwygio'r Prif Gyfarwyddydau**

**2.** Mae'r Prif Gyfarwyddydau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**Diwygio adran 2 (Gwerthoedd Contractau Blynyddol wedi eu Negodi)**

**3.** Yn adran 2, yn lle paragraff 2.8 (addasiad i werthoedd contractau blynyddol) rhodder "The percentage determined by the Welsh Ministers for the financial year commencing on 1 April 2025 is 4%."

**Diwygiadau sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol 2025/26**

**4.** Yn lle adran 10A (metrigau newydd a all fod yn gymwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ac amodau sydd ynghlwm wrth unrhyw daliadau sy'n gysylltiedig â'r metrigau newydd hynny) rhodder—

**"10A. Conditions attached to the annual contract value adjustment in respect of the 2025/26 financial year**

**10A.1.** For the 2025/26 financial year, the percentage determined by the Welsh Ministers as the annual contract value adjustment in paragraph 2.8 of section 2 of this SFE is payable only where the contractor submits a written declaration to the LHB before 30 June 2026 confirming that it has fulfilled the conditions set out in paragraph 10A.2.

**10A.2.** The conditions referred to in paragraph 10A.1 are—

(a) completion of an antimicrobial audit, a comparison of the result of that audit against those previously carried out and identification of the actions required to improve antibiotic prescribing within its practice,

---

cyfarwyddyd yn ei gyfanrwydd, yn niweidiol i'r personau y mae'n ymwneud â'u tâl.

(**1**) 2009 Rhif 18. Diwygiwyd gan 2010 Rhif 22, 2011 Rhif 33, 2012 Rhif 27, 2013 Rhif 11, 2014 Rhif 27, 2015 Rhif 23, 2016 Rhif 26, 2016 Rhif 31, 2017 Rhif 19, 2018 Rhif 73, 2019 Rhif 42, 2020 Rhif 66, 2021 Rhif 21, LlC21-88, LlC22-17, LlC23-01, LlC25-02, LlC25-04, LlC25-07 a LlC25-44.

(b) completion and review of the contractor’s urgent care provision,

(c) maintain clinical records evidencing at least two treatment/acclimatisation attempts before any paediatric referral from 2 January 2026 for additional/advanced services including general anaesthetic services, and

(d) implementation, and report on its operation and effect of the contractor’s Did Not Attend Policy.

**10A.3.** The LHB may request from the contractor any information which the LHB does not have but reasonably requires in order to determine whether the contractor has satisfied the conditions in paragraph 10A.2.”

Llofnodwyd gan Paul Casey, Dirprwy Gyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.



Dyddiad 22 Rhagfyr 2025